# Swyddog Cyfathrebu

| | |
|---|---|
| **Lleoliad** | **Gweithio o gartref, ond bydd angen teithio'n i gaffis trwsio ledled Cymru** |
| **Contract** | **Contract amser llawn tymor penodedig tan 31 Mawrth 2026** |
| **Cyflog** | **£30,371** |
| **Adrodd i** | **Y Rheolwr Gweithrediadau** |
| **Dyddiad dechrau** | **Cyn gynted â phosibl** |

## YNGHYLCH CAFFI TRWSIO CYMRU

*'Cymdeithas sydd wedi'i grymuso i gydweithio er mwyn lleihau gwastraff, rhannu sgiliau, a chryfhau ein cymunedau'*

Mae Caffi Trwsio Cymru yn Gwmni Buddiannau Cymunedol nid-er-elw sy'n agor ac yn cefnogi caffis trwsio ledled Cymru. Ar eu ffurf symlaf, mae caffis trwsio yn ddigwyddiadau dros dro lle mae gwirfoddolwyr yn trwsio, am ddim, eitemau cartref y gymuned leol sydd wedi torri. Mae caffis trwsio yn cael eu cychwyn gan drigolion, gyda'n cefnogaeth ni, ac yn cael eu cynnal gan y gymuned leol.

Ar hyn o bryd rydym ni'n cefnogi rhwydwaith o fwy na 130 o gaffis trwsio ond nid dyna'r diwedd! Ein cenhadaeth yw hwyluso agor caffis trwsio ym mhob tref, pentref, dinas a maestref yng Nghymru. Rydym ni'n canolbwyntio'n hegni ar feithrin byd glannach, mwy cynaliadwy tra bod ein cymunedau'n amgylcheddau cynhwysol a diogel i bobl o bob oedran a chefndir rannu gwybodaeth, sgiliau, a chysylltu'n gyffredinol.

Gweithiwn dros ein cymunedau i ddylanwadu ar safonau ar gyfer nwyddau a pholisi'r llywodraeth, casglu data o'n canolbwyntiau cymunedol, a helpu i lywio penderfyniadau polisi sy'n hyrwyddo byd gwyrddach, mwy cynaliadwy.

## YNGHYLCH Y RÔL

Rydym yn chwilio am Swyddog Cyfathrebu profiadol i ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu effeithiol, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr. Bydd y Swyddog Cyfathrebu yn hyrwyddo ein hymgysylltiad a'n cyrraedd ar draws ein holl sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn cynhyrchu cynnwys creadigol ysbrydoledig, er mwyn i ni gael ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a chael mwy o effaith. Rôl allweddol yw hon i'n sefydliad a byddai'n gweddu orau i rywun creadigol, cryf eu cymhelliant sy'n egnïol dros ddatrys problemau, gweithio'n gydweithredol, ac amgylchedd sy'n symud ar garlam.

Ar hyn o bryd rydym yn dîm bach sy'n gefnogol iawn o weithio hyblyg, gyda ffocws ar gyflenwi canlyniadau. Mae hwn yn gontract tymor penodedig, gyda'r potensial i'w estyn os byddwn yn llwyddiannus wrth sicrhau rhagor o gyllid. Rôl sy'n gweithio o gartref yw hon ond bydd angen teithio'n achlysurol i gaffis trwsio ledled Cymru i gynhyrchu cynnwys.

## CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Datblygu, cyflwyno a monitro strategaeth gyfathrebu gyffredinol yr elusen
- Cynllunio, creu ac amserlennu cynnwys dwyieithog deniadol ar gyfer pob sianel gan gynnwys Facebook, Instagram, LinkedIn, TikTok
- Paratoi, dylunio a chyhoeddi cylchlythyrau ac ymgyrchoedd e-bost gan ddefnyddio Mailchimp
- Ysgrifennu a golygu erthyglau newyddion, blogiau a diweddariadau gwefan ar gyfer safle RCW
- Casglu straeon effaith, lluniau ac astudiaethau achos gan wirfoddolwyr, ymwelwyr a chaffis lleol, a'u siapio ar gyfer y digidol, y wasg ac ymgyrchoedd
- Arwain ar ymgyrchoedd cenedlaethol (Fix It Feb) o'r syniadau, pecynnau cymorth ac asedau, i gydlynu partneriaid a monitro effaith
- Sefydlu perthnasau gyda micro-ddylanwadwyr perthnasol a sefydlu a rhedeg ymgyrch ddylanwadwyr
- Cydlynu gyda phartneriaid a noddwyr i gynhyrchu cyfathrebiadau â brandiau cydgysylltiedig
- Tracio dadansoddeg, mesur ymgysylltiad ac addasu gweithgarwch i gyrraedd cynulleidfa ehangach
- Ymateb i ymholiadau'r wasg a chefnogi perthnasau â'r cyfryngau yn ôl yr angen
- Aros yn gyfredol â thueddiadau mewn cyfathrebu digidol ac ymgysylltu cymunedol
- Sicrhau bod yr holl negeseuon yn adlewyrchu ein brand, ein llais a'n hymrwymiad i ddwyieithrwydd

## SGILIAU A PHROFIAD GOFYNNOL

**Profiad blaenorol**

- Hanes profedig o ddefnyddio amrywiol sianeli cyfathrebu a marchnata er mwyn gwella brand a phroffil
- Profiad o ysgrifennu deunydd sy'n ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli ar gyfer y cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau

- Profiad o gyfrannu at ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu
- Dealltwriaeth o ddatblygu ymgysylltiad â chynulleidfaoedd ar gyfryngau cymdeithasol, yn arbennig Facebook, Linked In, TikTok ac Instagram
- Mae profiad o weithio ar ymgyrchoedd dylanwadu graddfa-fach yn ddymunol
- Mae profiad o weithio yn y trydydd sector yn ddymunol
- Mae profiad o ffotograffiaeth a fideograffiaeth a golygu yn ddymunol

**Cymwyseddau**

- Sgiliau TG gan gynnwys Microsoft, Canva neu offer dylunio eraill, meddalwedd ddadansoddeg, hysbysebion Google, llwyfannau marchnata trwy e-bost a systemau gwefan CMS
- Sgiliau ysgrifenedig cryf gyda phrofiad o lunio a chynnig hysbysiadau i'r wasg ac ysgrifennu ar gyfer ystod o wahanol gynulleidfaoedd
- Sgiliau dadansoddi rhagorol gyda'r gallu i adrodd ar berfformiad ar draws pob sianel gyfathrebu
- Ymrwymiad gwirioneddol i werthoedd ac ethos Caffi Trwsio Cymru
- Sgiliau cyfathrebu eithriadol, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Gallu i feithrin cysylltiadau cryf ag amrywiaeth o randdeiliaid
- Llygad graff am fanylion
- Ymagwedd hyblyg at ymdrin â thasgau, gyda'r gallu i reoli blaenoriaethau lluosog mewn amgylchedd prysur

**Sgiliau technegol**

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- Gwybodaeth o ddiogelu data a'r ddeddfwriaeth berthnasol
- Mae profiad o fentrau cynaliadwy neu'r economi gylchol yn ddymunol

## GWERTHOEDD

Mae caffis trwsio yn ffordd ddifyr, gymdeithasol o oresgyn y rhwystredigaeth gyffredinol ar ddeunyddiau ac adnoddau sy'n cael eu gwastraffu a sgiliau sy'n cael eu colli. Mae'n gymuned, yn lle am rymuso ac yn fan trawsnewid lle bydd perthynas pobl â'u heitemau cartref yn newid o ddefnyddiwr i berchennog.

**Mae'n ofynnol i bob cyflogai, contractiwr a gwirfoddolwr weithredu yn unol â gwerthoedd craidd Caffi Trwsio Cymru, sef:**

- **Lleihau Gwastraff** - Mae caffis trwsio yn helpu eitemau cartref i gael eu defnyddio'n hirach yn hytrach na chael eu taflu. Mae hyn yn lleihau maint y deunyddiau crai a'r ynni mae eu hangen i wneud cynhyrchion newydd. Mae'n cwtogi allyriadau $CO_2$ drwy ailddefnyddio yn hytrach na gweithgynhyrchu cynnyrch newydd.
- **Rhannu Sgiliau** - Drwy hyrwyddo diwylliant trwsio a gwahodd pob un o'n hymwelwyr i eistedd gyda thrwsiwr gwirfoddol, mae caffis trwsio yn dangos gwerthfawrogiad i'r bobl sydd â gwybodaeth ymarferol ac yn sicrhau bod y sgiliau gwerthfawr hyn yn cael eu pasio ymlaen.

- **Cydlyniant Cymunedol** - Mae caffis trwsio yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol yn y gymuned trwy gysylltu trigolion lleol o gefndiroedd gwahanol iawn ac sydd â chymhellion gwahanol â'i gilydd trwy ddigwyddiad ysbrydoledig a chynnil.

## Y BROSES RECRIWTIO

I wneud cais, cyflwynwch eich CV, llythyr cyflwyno byr, ac unrhyw enghreifftiau o gynnwys rydych chi wedi'i gynhyrchu o'r blaen.

Anfonwch geisiadau at: phoebe@repaircafewales.org

Dyddiad cau am geisiadau: 5yp Dydd Gwener 15, Awst, 2025

*Cadwn yr hawl i gau'r swydd wag yma'n gynnar os byddwn ni'n derbyn digon o gynigion am y rôl. Felly os oes diddordeb gennych chi, cyflwynwch eich cais mor fuan â phosibl.*

**Mae Caffi Trwsio Cymru yn cydnabod gwerth positif amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu. Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau swydd oddi wrth bobl o bob cefndir. Rydym yn arbennig yn croesawu ceisiadau oddi wrth ymgeiswyr anabl a Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) gan fod pobl BAME ac anabl yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ledled Caffi Trwsio Cymru. Rydym wedi gwneud ymrwymiad cadarnhaol i gyflogi pobl anabl ac yn gwarantu cyfweld â phob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r isafswm meini prawf hanfodol am y rôl fel y'u pennir mewn proffiliau rôl.**